sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

# Sianel BBC Scotland newydd

## Amrywiad arfaethedig i Drwydded Weithredu Ofcom ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 29 Awst 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 10 Hydref 2018

# Gair am y ddogfen hon

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau am ein cynigion i amrywio telerau Trwydded Weithredu'r BBC er mwyn ystyried Sianel BBC Scotland newydd (“BBC SC ”) a fydd yn cael ei darparu gan y BBC. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw Dydd Llun, 10 Hydref am 5pm.

# Cynnwys

## Adran

Cyflwyniad ` 1

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Ofcom yn dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth[1] a hyrwyddo'i ddibenion cyhoeddus[2], fel sy'n cael ei nodi yn ei Siarter[3]. Un o'r ffyrdd a ddefnyddiwn i wneud hyn yw sefydlu Trwydded Weithredu (y "Drwydded") sy'n cynnwys amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw. Cyhoeddodd Ofcom y Drwydded gyntaf ym mis Hydref 2017[4].

1.2 Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd y BBC gynigion ar gyfer sianel deledu BBC Scotland ("BBC SC "). Cynhaliodd Ofcom asesiad cystadleuaeth mewn perthynas â'r BBC - y cyfeirir ato yma fel "Asesiad Cystadleuaeth y BBC" - i weld a fyddai'r gwerth cyhoeddus sy'n cael ei gynnig gan y sianel newydd yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ar 26 Mehefin, cyhoeddasom ein penderfyniad[5] y gallai'r BBC fwrw ymlaen â'r gwaith o lansio'r sianel newydd.

1.3 Efallai y bydd Ofcom yn amrywio'r Drwydded, ond bydd yn rhaid iddo ymgynghori âr BBC ac ag unrhyw berson sy'n briodol yn ein barn ni.[6] Mae'r drwydded yn cynnwys cwotâu ar gyfer rhaglenni o ddiddordeb i wylwyr yn yr Alban y bydd angen eu newid yn sgil lansio'r sianel newydd, sydd i fod i ddigwydd ym mis Chwefror 2019.

1.4 Rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar ein cynigion i ddiweddaru telerau'r Drwydded i ystyried BBC SC a sut byddwn yn mesur perfformiad y sianel.

## Cefndir

### Sianel BBC Scotland

1.5 Ar 30 Tachwedd 2017, cyhoeddodd y BBC ei gynigion ar gyfer BBC SC yn ei Brawf Lles y Cyhoedd ei hun. Dyma nhw:

a) Dywedodd y BBC y byddai'r sianel newydd yn cael ei darlledu o 7pm tan hanner nos bob gyda'r nos. Byddai'r sianel hefyd yn cyd-ddarlledu BBC Two o hanner dydd tan 7pm ynghyd â digwyddiadau ad hoc o bryd i'w gilydd fel darpariaeth wleidyddol fyw yn

[1] Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu (Erthygl 5 yn y Siarter).

[2] Dyma'r Dibenion Cyhoeddus: (1) Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas; (2) Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed; (3) Dangos y cynnyrch a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig o'r ansawdd gorau; (4) Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig a thrwy wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig; a (5) Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd (erthygl 6 yn y Siarter).

[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/577829/57964_CM_9365_Charter_Accessible.pdf

[4] Trwydded gyfunol (Mawrth, 2018) - https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/107072/bbc-operating-licence.pdf

[5] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/115270/BBC-scotland-statement.pdf

[6] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0025/107089/procedures-bbc-operating-licence.pdf

ystod y dydd (yn arbennig Cwestiynau'r Prif Weinidog) a chwaraeon byw. Ni fyddai'r ddarpariaeth hon yn ystod y dydd yn ddim mwy nag 150 awr y flwyddyn.

b) Byddai rhaglenni penodol i'r Alban ar BBC Two Scotland yn dod i ben gan y byddai'r rhaglenni hyn yn cael eu darlledu ar y sianel newydd. Byddai BBC Two yn cael ei ddarlledu yn yr Alban heb yr 'opsiynau optio-allan' ar safle rhif 2 ar Gyfeirydd Rhaglenni Electronig Freeview.

c) Ar sail y cynlluniau hyn, yn ystod yr oriau craidd rhwng 7pm a hanner nos, byddai 50% o'r oriau yn rhaglenni gwreiddiol yn cael eu dangos am y tro cyntaf ac yn rhaglenni sy'n cael eu prynu a byddai 50% yn rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu.

d) Byddai cyllideb y sianel ychydig dros £32 miliwn y flwyddyn, er y byddai union wariant y sianel yn dibynnu ar amseriad penderfyniadau amserlennu a chomisiynu.

e) Byddai'r sianel yn gweithio ar y cyd â sianeli teledu eraill y BBC, yn enwedig er mwyn ei galluogi i ddarlledu rhai rhaglenni drama a chomedi am y tro cyntaf, yn dibynnu ar hawliau. Byddai hyn yn galluogi'r sianel i gyflawni ei huchelgais i ddangos amrywiaeth eang o raglenni er budd cynulleidfaoedd yn yr Alban.

f) Byddai'r ddarpariaeth newyddion ar y sianel, ac ar-lein, yn anelu at fod yn unigryw, yn arloesol a ffres, gan apelio at y cynulleidfaoedd hynny nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ym marn y BBC, gan gynnwys gwylwyr iau. Byddai'n wahanol i'r ddarpariaeth a gynigir gan y sector masnachol. Byddai rhaglen newyddion integredig awr o hyd yn cael ei darlledu bob noson o ddydd Llun i ddydd Gwener am 9pm, yn cynnwys straeon yn ymwneud â'r Alban, y Deyrnas Unedig a thramor, yn cael eu cyflwyno o safbwynt yr Alban.

g) Yn dilyn ei Brawf Lles y Cyhoedd, diweddarodd y BBC ei gynnig i gynnwys darlledu'r gwasanaeth ar yr un pryd mewn HD.

1.6 Yn ei ymateb[7] i ymgynghoriad Ofcom fel rhan o broses asesu cystadleuaeth y BBC (BCA), rhannodd y BBC gynllun amserlennu enghreifftiol ar gyfer BBC SC:

- 7pm i 8pm – Cwis, nodweddion ffordd o fyw ac ailddarllediadau.
- 8pm i 9pm – rhaglenni dogfen cyn y trothwy, rhaglenni ffeithiol.
- 9pm i 10pm – Newyddion Naw o'r Gloch.
- 10pm i 11pm – Drama, ffeithiol, comedi, pryniannau.
- 11pm i hanner nos – Cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd iau.

1.7 Ar 26 Mehefin 2018 cyhoeddodd Ofcom ei benderfyniad (Penderfyniad yng nghyswllt Asesiad Cystadleuaeth y BBC )[8] i adael i'r BBC fwrw ymlaen â'r sianel newydd yn unol â'r disgrifiad uchod. Yn y Penderfyniad yng nghyswllt Asesiad Cystadleuaeth y BBC, nododd Ofcom ein bod yn disgwyl i BBC SC gael rhywfaint o effaith ar y farchnad, yn enwedig ar

[7] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0018/114381/BBC.pdf
[8] Edrychwch ar droednodyn 5.

sianeli darlledu eraill yn yr Alban. Ond roeddem yn credu y byddai modd cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol oherwydd y gwerth cyhoeddus a fyddai'n cael ei ddarparu gan y cynnig.

1.8 Roedd Penderfyniad Ofcom yng nghyswllt Asesiad Cystadleuaeth y BBC ar gyfer y sianel newydd yn seiliedig ar nodweddion BBC SC fel y nodir uchod. Gan fod BBC Scotland yn wasanaeth newydd, rhaid i Ofcom ddiwygio'r Drwydded i ymgorffori'r gwasanaeth newydd. Nid yw'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r Drwydded yn mynd ddim pellach na chwmpas ein Penderfyniad yng nghyswllt Asesiad Cystadleuaeth y BBC (h.y. mae arnom eisiau sicrhau bod y Drwydded yn adlewyrchu nodweddion y cynnig a gafodd eu hystyried yn yr asesiad hwnnw).

## Siarter a Chytundeb y BBC

1.9 Mae Cytundeb Fframwaith y BBC[9] ("y Cytundeb ") yn creu rhwymedigaethau ar Ofcom i osod amodau trwydded penodol ar gyfer y BBC, ac yn rhoi disgresiwn eang i ni osod rhagor o amodau rheoleiddio sy'n briodol yn ein barn ni er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC, wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus y DU, gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'i Ddibenion Cyhoeddus, ac i sicrhau bod cynulleidfaoedd yng ngwledydd y DU yn cael gwasanaeth da.[10]

1.10 Mae'n diffinio dau fath o raglenni y mae'n rhaid i Ofcom osod amodau ar eu cyfer: "Rhaglenni rhwydwaith" a "rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol"[11].

1.11 Mae "rhaglenni rhwydwaith" yn golygu rhaglenni sydd wedi'u creu i'w gwylio ar unrhyw un o Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU. Ond nid yw'n cynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud i'w gwylio ar amrywiad o un o'r gwasanaethau hynny sy'n berthnasol i un o'r gwledydd neu i unrhyw ranbarth yn Lloegr.

1.12 Mae "rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol" yn golygu rhaglenni sy'n cael eu gwneud i'w gwylio ar amrywiadau o'r gwasanaethau hynny sy'n berthnasol i wledydd y DU neu ranbarthau Lloegr - er enghraifft, y chwe[12] gwasanaeth optio-allan rhanbarthol ar gyfer BBC One a BBC Two yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon - ac sydd o ddiddordeb penodol i'r rheini sy'n byw yn y wlad honno neu'r rhanbarth hwnnw.

1.13 Does dim darpariaeth ar hyn o bryd yn y Cytundeb ar gyfer gwasanaethau teledu penodol i wlad nad ydynt yn amrywiadau ar wasanaethau rhwydwaith eraill. O dan y Cytundeb, mae'r holl raglenni ar BBC SC, drwy ddiffiniad, yn "rhaglenni rhwydwaith ", gan nad yw'r gwasanaeth yn amrywiad ar wasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU[13].

---

[9] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/584329/57965_Cm_9366_Print__1_.pdf.

[10] Cymal 13 y Cytundeb.

[11] Gweler Atodlen 2 paragraffau 6 a 7 y Cytundeb.

[12] h.y. BBC One Scotland, BBC Two Scotland, BBC One Wales, BBC Two Wales, BBC One Northern Ireland, a BBC Two Northern Ireland.

[13] Mae'r rhesymeg hon yr un mor berthnasol i BBC Alba.

1.14 Mae'r Cytundeb yn cynnwys gofynion penodol ar gyfer yr holl fathau o raglenni.

1.15 Mae gofynion penodol yn gysylltiedig â gwasanaethau rhwydwaith gan gynnwys rhai cwotâu. Rhaid i Ofcom osod y gofynion sydd yn ein barn ni yn “briodol” i sicrhau bod:

a) “cyfran addas” o’r holl raglenni rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25;

b) cyfran addas o’r holl raglenni rhwydwaith yn rhaglenni sy’n cael eu gwneud yng Nghymru, yng Ngogledd Iwerddon a’r Alban;

c) y rhaglenni rhwydwaith sy’n cael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25 (gyda’i gilydd) yn cynrychioli ystod briodol o raglenni;

d) cyfran addas o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i Ardal yr M25;

e) cyfran addas o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn (i) yr Alban, (ii) Cymru, (iii) Gogledd Iwerddon a (iv) Lloegr (y tu allan i ardal yr M25); a

f) y gwahanol ganolfannau cynhyrchu rhaglenni yn cyfateb i’r hyn sy'n ymddangos i Ofcom yn ystod addas o ganolfannau cynhyrchu o'r fath[14].

1.16 Rhaid i Ofcom hefyd osod rhwymedigaethau ar y BBC i sicrhau bod:

a) digon o amser yn cael ei roi yn y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU i ystod addas o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion) sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;

b) rhaglenni rhanbarthol o ansawdd uchel;

c) rhaglenni rhanbarthol yn cael eu gwneud yn yr ardal berthnasol;

d) rhaglenni newyddion rhanbarthol yn cael darlledu yn achlysurol ac yn ystod oriau brig; a

e) cyfran addas o raglenni rhanbarthol eraill yn cael eu darlledu yn ystod yr oriau gwylio brig ac yn yr ysgwydd[15].

1.17 O dan y Cytundeb, rhaid i Ofcom, wrth osod amodau rheoleiddio, roi ystyriaeth benodol i'r angen i'r BBC sicrhau y darperir cynnyrch a gwasanaethau unigryw, ac mai un ffactor wrth ystyried natur unigryw yw faint o gynnyrch gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU.

## Y Drwydded bresennol

1.18 O dan y Drwydded bresennol, mae cwotâu’n berthnasol i raglenni rhwydwaith a rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol a rhanbarthol BBC One a BBC Two Scotland. Yn yr ail gategori, mewn perthynas â BBC One a BBC Two gyda’i gilydd, mae amod 2.67 y

[14] Atodlen 2 paragraff 7 y Cytundeb
[15] Atodlen 2 paragraff 6 y Cytundeb

Drwydded yn datgan bod yn rhaid i'r BBC sicrhau'r canlynol yn ystod pob Blwyddyn Galendr:

a) bod o leiaf 6,300 awr yn cael eu neilltuo i raglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;

b) bod y rhaglenni hynny'n cynnwys ystod briodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol);

c) bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni ac a fydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;

d) bod o leiaf 700 awr o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod yr Oriau Gwylio Brig[16]; a

e) bod o leiaf 280 awr o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl yr Oriau Gwylio Brig.

1.19 Hefyd, mewn perthynas â BBC One Scotland a BBC Two Scotland gyda'i gilydd, mae amod 2.79 y Cytundeb yn datgan bod yn rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban yn ei raglenni.

1.20 Mewn perthynas â BBC Two Scotland, mae amod 2.80 y Cytundeb yn datgan bod yn rhaid i'r BBC ymhob Blwyddyn Ariannol sicrhau bod o leiaf 200 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion, gan gynnwys allbwn Gaeleg. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy'n cael eu prynu, ac nid yw'n cynnwys rhaglenni materion cyfoes.

1.21 Mae amod 2.32 o'r Drwydded Weithredu yn nodi'r gyfran sylfaenol o gynyrchiadau gwreiddiol y mae'n rhaid eu cynnwys yng Ngwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ac yn cael ei fynegi fel canran o oriau'r holl raglenni. Er enghraifft, y gyfran sylfaenol ar gyfer BBC One, BBC Two a BBC Alba yw 75% (gan godi i 90% fel canran o oriau'r holl raglenni yn ystod yr oriau gwylio brig ar BBC One a BBC Two).

1.22 Mae amod 2.33 i 2.36 yn gosod cwotâu ar gyfer rhai o sianeli'r BBC ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf.

## Y diwygiadau rydym yn eu cynnig i Drwydded Weithredu'r BBC

1.23 Rydym yn bwriadu diwygio'r Drwydded mewn pum ffordd:

a) nodi sut y dylai rhaglenni BBC SC a BBC Alba gael eu trin mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer gwneud rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau;

[16]Mae oriau gwylio brig yn cael ei ddiffinio yn y Drwydded Weithredu fel a ganlyn:
(a) 18:00 i 22:30 mewn perthynas â'r holl Wasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU ac eithrio BBC Four;
(b) 19:00 i 24:00 mewn perthynas â BBC Four

b) nodi sut y dylai rhaglenni sydd wedi cael eu comisiynu ar cyd gan gwahanol wasanaethau'r BBC gael eu hystyried at ddibenion ystyried rhai cwotâu;

c) cael gwared â'r holl gyfeiriadau at wasanaeth optio-allan BBC Two Scotland o'r Drwydded;

d) lle bo hynny'n briodol, cadw rhywfaint o rwymedigaethau gwasanaeth optio-allan BBC Two Scotland ond eu gosod ar BBC SC; a

e) gosod gofyniad Trwydded ychwanegol ar BBC SC ar ffurf gofyniad i gludo newyddion yn ystod y cyfnod gwylio brig.

Rydym wedi disgrifio ein diwygiadau arfaethedig i'r Drwydded ym mharagraffau 2.3 i 2.33 y ddogfen ymgynghori gyflawn.

1.24 Mae'r ddogfen honno hefyd yn delio â dau fater cysylltiedig arall. Yn benodol:

a) rydym yn disgrifio pa fesurau perfformiad y bydd Ofcom yn eu defnyddio i asesu perfformiad BBC SC; a

b) rydym y nodi sut y byddwn yn asesu perfformiad BBC Two Scotland yn erbyn y Drwydded gan ystyried y ffaith y bydd yn cael ei ddiffodd yn ystod blwyddyn y perfformiad.

## Y Camau Nesaf

1.25 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 10 Hydref 2018. Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn rhoi ein penderfyniad terfynol ar yr opsiynau uchod erbyn dechrau 2019, cyn y dyddiad ar gyfer lansio sianel newydd y BBC ym mis Chwefror 2019.

1.26 Byddwn yn trin yr holl sylwadau fel rhai nad ydynt yn gyfrinachol ac fe allwn gyfeirio atynt yn y gwaith rydym yn ei gyhoeddi, oni bai fod yr ymatebwyr yn nodi fel arall. Dylai ymatebwyr roi unrhyw rannau cyfrinachol o'u hymateb mewn atodiad ar wahân, gan egluro pam y maent yn eu hystyried yn rhai cyfrinachol. Ewch i Atodiad Tri i gael rhagor o wybodaeth am ymateb i'r ymgynghoriad hwn.